**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**
**7:30YH 25AIN HYDREF 2023**
**CYNHALIWYD YN LLANGERNYW**

## 1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Jane Roberts (JR), Ann Vaughan (AV), Diane Roberts (DR), Mark Davies (MD), Sara Thomas (ST), Euros Williams (EUW), Austin Roberts (AR) & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)

**1.3** Ymddiheuriadau: Myrddin Davies (MGD), Gwydion Jones (GJ) & Einir Williams (EW)

## 2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

## 3 COFNODION I'W GWIRIO MEDI 27AIN 2023

Cynigwyd yn gywir gan JR ac eilwyd gan MD .

## 4 MATERION YN CODI

**4.1** AV yn tynnu sylw fod arwydd yr ysgol a 20 m.y.a. hollol allan o'r golwg. DR am ofyn i'r clawdd cael ei dorri o gwmpas arwydd ysgol sydd ar dir preifat. CWG wedi gofyn yn barod i'r sir dorri o gwmpas yr arwydd 20 m.y.a., AR am fynd ar ôl hyn. Nid yw'r arwyddion 'Beicio'n ddiogel' dal heb eu rhoi i fyny, AV am eu hatgoffa eto.

**4.2** Tynnwyd llun o'r Cynghorwyr y mis diwethaf a phasiwyd ei gynnwys ar wefan y Cyngor Cymuned. Bydd angen llun o MGD hefyd gan ei fod yn absennol ar y noson.

**4.3** CWG wedi cysylltu gydag Emyr o'r Cyngor Sir i sôn am ddŵr yn hel o dan Tan y Graig. Emyr yn dweud eu bod yn clirio'r draeniau (ac yn mynd o gwmpas yn dilyn tywydd garw) ond nid oes dim y gall ef ei wneud wrth ymyl Tan y Graig. AR am fynd ar ôl hyn rhag ofn bod rhywbeth y gellir ei wneud.

**4.4** Mae Kevin Roberts wedi cytuno i wneud y gwaith ar y llwybr troed o'r Bont Faen.

**4.5** Tomos Hughes - CWG wedi bod yn siarad dipyn ag ef ac mae yn andros o gefnogol. Tomos sydd wedi bod yn edrych ar ôl y diffibriwr ond mae yn awyddus i basio'r cyfrifoldeb ymlaen ym mhob un ardal ac felly mae wedi gofyn i CWG fod yn gyfrifol am wirio bob tri mis fod y padiau heb fynd yn hen a bod tic gwyrdd ar y peiriant yn dangos ei fod wedi ei wefru ac yn gweithio. Tomos a CWG wedi gweithio ar y cyd i greu cyfrif '*The Circuit*' ac felly mae'r diffibrilydd wedi ei restru arno ac mae'r gwasanaeth ambiwlans yn gwybod am ei fodolaeth. Os bydd yn cael ei ddefnyddio yna bydd CWG yn cael e-bost i fynd i'w wirio a gellir gofyn i Tomos am badiau newydd - mae'r rhain ar gael am ddim ar y funud ond efallai y bydd hyn yn newid.(Mae batris yn costio rhwng £20 a £25 bob 5 mlynedd a'r padiau rhwng £25 a £30 bob tro).

Roedd Tomos yn awgrymu fod angen diffibrilydd arall yn y pentref gan ei fod yn bentref hir ac y buasai o gwmpas Cofgolofnau'r Dyffryn yn syniad da. CWG wedi awgrymu yr hen flwch ffôn a Tomos wedi dweud fod angen gwneud yn siwr nad yw'r trydan wedi ei ddatgysylltu. CR yn dweud fod yr hen flwch ffôn eisioes wedi ei brynu gan y Cyngor ond ei fod yn meddwl fod y trydan wedi ei ddatgysylltu.

Tomos yn cynnig gofyn a oes grant ar gael gan Glocaenog/Maelogan. Byddai angen gofyn am werth £1590 o arian (+ TAW) er mwyn prynu diffibrilydd a chabinet a'i osod.

Dywedodd Tomos fod gwarant y diffibrilydd presennol yn dod i ben y flwyddyn nesaf ac os bydd yn torri yna ni fydd werth ei atgyweirio. Mae wedi bod yno am 5 mlynedd ac mae'r hyd oes tua 12 mlynedd. Roedd yn awgrymu gosod £250 i un ochr bob blwyddyn a'i gynnwys yn y *precept*. Yna, meddwl am brynu un arall ar gyfer ffordd Llansannan ar gyfer y dyfodol.

Trafodwyd fod angen ymchwilio i weld pwy sy'n gyfrifol am rai Gwytherin a Phandy Tudur hefyd ac felly CWG i gysylltu gyda Tomos ynlŷn â hyn. Hefyd, ymchwilio i weld os oes angen ei ychwanegu i yswiriant y cyngor. Cytunwyd y dylid ymchwilio i mewn i weld os oes posib cael grant ar gyfer deffibrilydd ychwanegol. CWG i edrych i mewn i grant Clocaenog/Brenig a gofyn hefyd os ydynt yn gallu cyfrannu tuag at costau cynnal a chadw o £750 (£250 yr un i'r 3 deffibrilydd).

**VAS** -CR a DR wedi cwrdd dydd Mercher diwethaf gyda Richard Roberts ac mae am yrru map gyda'r lleoliadau newydd.

## 5 CEISIADAU CYNLLUNIO

**5.1** Cais rhif 0/51121 Bridge Inn, Llangernyw LL22 8PP (Caniatâd Ardal Gadwraeth)

**5.2** Cais rhif 0/51122 Bridge Inn, Llangernyw LL22 8PP
Pawb yn cytuno gyda dim sylwadau.

## 6 MATERION CYNGOR

**6.1** Model Brotocol Datrysiadau Lleol - wedi eu gyrru i bod un cynghorydd ar e-bost, cytunwyd i'w derbyn.
**6.2** Rheolau Sefydlog - wedi eu trafod mewn is-bwyllgor blaenorol ac wedi eu gyrru i bod un cynghorydd ar e-bost, cytunwyd i'w derbyn.
**6.3** Polisi GDPR- wedi eu gyrru i bod un cynghorydd ar ebost, cytunwyd i'w derbyn.
**6.4** Adroddiad Pwyllgor Mynwentydd - wedi ei dderbyn ar ebost gan AV ac wedi ei basio ymlaen i bob cynghorydd. Mae ychydig o waith angen ei wneud yn y pedair mynwent ac angen gofyn i Dei Evans a Kevin Roberts am bris i ymgymryd â'r gwaith.

## 7 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Mae pont Glan Rhyd wedi ei atgyweirio a phont yn Llangernyw wedi cael ei tharo. Mae pont Pandy Tudur wedi cael archwiliad bythefnos yn ôl a heb waethygu. Cafodd AR luniau gan Eifiona Hendre Bach o'r llifogydd a gofynnodd i'r cyngor anfon *sweeper* yno i'w lanhau. Mae polyn ffon wedi malu a'r lein wedi ei dorri wrth ymyl Tŷ Nant Gell ac mae BT am ddechrau gosod polion newydd yno. Mae AR wedi gofyn i'r cyngor roi *sweeper* ar allt Ty'n Pistyll eto. Anogodd AR yr holl gynghorwyr i wirio eu biniau halen cyfagos a gadael iddo ef wybod os ydynt angen eu llenwi ar gyfer y gaeaf yna hysbysodd y cyngor fod pwyllgor llawn o'r cyngor sir yr wythnos diwethaf wedi pasio codi premiwm ail gartrefi 100% a hefyd premiwm ar dai gwag.

Nododd DR fod y palmant yn Fedwen Arian wedi cracio, bydd AR yn cael golwg arno.

## 8 MATERION ARIANNOL

**8.1** Adroddiad chwarterol wedi ei baratoi gan CWG yn dilyn cyfarwyddiadau gan Iona Edwards y cyfrifydd. DR yn mynegi ei barn y dylai fod y daenlen yn cyd-fynd gyda dyddiad yr anfoneb yn hytrach na'r gyfriflen a bod yn bosib gwneud *accruals* fel ei fod yn cyd-fynd gyda'r *precept*. CR yn nodi fod yn rhaid i CWG gyd-weithio gyda'r cyfrifydd. CWG i ofyn i Iona eto i wneud yn siŵr.

**8.2** TAW heb ei hawlio ers 3 blynedd gan Iona Edwards. CWG wedi e-bostio a heb gael ateb. Wedi cael sgwrs ar y ffôn a dywedodd ei bod am ei wneud y diwrnod hwnnw ond heb glywed dim yn ôl wedi hyn.

## 9 GOHEBIAETH

**9.1** Apêl Cyngor Cymuned Ambiwlans Awyr Cymru 2023 - cytunwyd i gyfrannu £50.
**9.2** Llythyr gan *Cerebal Palsy* Cymru - penderfynwyd peidio cyfrannu.

## 10 BILIAU

**10.1** Anfoneb gan Un Llais am gwrs '*Local Government Finance*' CWG 19.9.23 - £38
**10.2** E-bost gan Un Llais parthed anfoneb am gwrs AV ers 10.1.23 angen ei dalu - £35
**10.3** Bil cyfieithu Enlli Roberts am fis Gorffennaf a Medi- £180
**10.4** Bil HMRC chwarterol o £277.20. Gofynnodd CWG os ydi'n iawn gosod debyd uniongyrchol ar gyfer y taliad yma bob 3 mis gan ei fod wedi glanio yn gynharach yn y mis ac mae angen pwyllgor i'w basio i'w dalu sy'n golygu y bydd y taliad yn hwyr. Cytunwyd i wneud hyn dros dro hyd nes mae'r cyfri ar-lein wedi ei osod.
**10.5** Taliad debyd uniongyrchol o £4.38 wedi mynd i Dŵr Cymru ar 4.10.23
Cytunwyd i dalu'r uchod i gyd.

## 11 MATERION LLEOL

**AV** - Trafodwyd y torri gwair yn y mynwentydd a phenderfynwyd gofyn i Dei Evans i dorri mynwent Llangernyw yn unig un waith eto cyn diwedd y tymor. Hefyd, hysbysodd am ddigwyddiad Calan Gaeaf gan Amgueddfa Syr Henry Jones ar Hydref 31ain a Thachwedd 2il a rhannwyd posteri.
**DR** - Soniodd bod hoel dŵr ar ffordd Ty'n Pistyll a bod pobl yn troi rownd yng Nglan Collen wrth ollwng plant i'r ysgol ac nid ydynt fod i ddefnyddio'r giât fach.
**ST** - Gofynnodd am ganiatâd i roi polyn pren i fyny ar gyfer dal y bin bagiau baw ci ym Mhandy Tudur a chytunodd pawb gyda hyn.
**JR** - Nododd fod hen eitemau ar hanner hysbysfwrdd Llangernyw nad yw'n bosib ei agor. MD am fynd yno i weld os allith ei agor.

## 12 CYFARFOD NESAF

Tachwedd 29ain 2023 yng Ngwytherin.
Cyfarfod yn dod i ben am 9:00.
Cymerwyd y cofnodion gan CWG.